

# Swyddog gwyddonol RSPCA

## Eich rôl:

Rydych chi'n cynrychioli barnau'r sefydliad lles anifeiliaid mwyaf yn y DU.

## Cefndir:

Mae wedi cymryd 15 mlynedd i wyddonwyr greu'r afr wedi'i haddasu'n enetig sy'n cael ei datgelu heddiw yn y gynhadledd i'r wasg. Yn ystod y 15 mlynedd hynny, bydd llawer o anifeiliaid wedi cael eu defnyddio, a llawer ohonynt wedi colli eu bywydau.

Defnyddiwyd anifeiliaid i:

- gyflenwi miloedd o wyau gafr i'w chwistrellu â'r genyn antithrombin (AT) dynol
- cyflenwi sberm i ffrwythloni wyau'r afr pan fyddant wedi cael eu chwistrellu
- bod yn famau benthyg i'r embryonau gafr a gafodd eu haddasu'n enetig.

Cyn i'r afr sydd wedi'i haddasu'n enetig a welwch heddiw gael ei chynhyrchu, bydd nifer o eifr eraill wedi cael eu cynhyrchu sydd efallai wedi:

- marw cyn neu ar ôl genedigaeth oherwydd diffygion datblygu
- cael eu lladd yn drugarog gan eu bod yn dioddef neu mewn trallod
- byw ac maent yn cario'r genyn AT dynol, ond nid ydynt yn cynhyrchu antithrombin yn eu llaeth.

Rydych chi'n gwybod bod llawer o bryderon lles anifeiliaid yn gysylltiedig â pheiriannu genetig gan gynnwys y canlynol:

- Gall anifeiliaid brofi poen, dioddefaint a thralod o ganlyniad i'r gweithdrefnau gwyddonol y maent yn rhan ohonynt, neu o ganlyniad i ymdrechion i addasu'r anifail yn enetig
- Defnyddir niferoedd helaeth o anifeiliaid drwy gydol y broses o greu anifail newydd wedi'i addasu'n enetig, a'r mwyafrif ohonynt yn colli eu bywydau
- Bydd yr anifeiliaid a ddefnyddiwyd neu a grëwyd gan yr ymchwil hwn wedi cael eu cadw mewn amgylchiadau annaturiol sy'n gallu cael effaith negyddol ar les yr anifeiliaid. Er enghraifft, efallai eu bod wedi'u cadw ar wahân yn hytrach na gyda'u cymheiriaid mewn heidiau
- Drwy addasu anifail yn enetig i gynhyrchu cyffur yn ei laeth rydych chi'n cynyddu'r dybiaeth mai gwrthrychau at ddefnydd pobl yw anifeiliaid, yn hytrach nag anifeiliaid â theimladau a'r gallu i ddioddef.

Rydych chi'n deall bod angen datblygu ffynonellau eraill o antithrombin i helpu i drin cleifion â diffyg AT. Fodd bynnag, rydych chi'n cwestiynu ai addasu geifr yn enetig i gynhyrchu antithrombin yn eu llaeth yw'r ffordd orau neu'r unig ffordd o wneud hynny.

## Gweithgaredd:

Ysgrifennwch ddatganiad byr, sy'n egluro pam mae eich cymeriad chi'n credu nad yw'n syniad da peiriannu geifr yn enetig i gynhyrchu cyffuriau at ddefnydd pobl.